**DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981**

**GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

# TRWYDDED GYFFREDINOL I SYMUD GWARTHEG O DDALIAD YN YR ARDAL TB ISEL NEU MEWN ARDAL TB GANOLRADD YNG NGHYMRU I SIOE NAD YW WEDI'I HEITHRIO CYN CYNNAL PRAWF TWBERCWLOSIS AR ÔL SYMUD

Yn unol ag erthyglau 13A a 23 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded gyffredinol hon, yn awdurdodi symud gwartheg o ddaliad yn yr Ardal TB Isel neu mewn Ardal TB Ganolradd yng Nghymru (fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010) i sioe amaethyddol nad yw wedi'i heithrio cyn cynnal prawf croen ar ôl symud, cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon.

Daw'r drwydded hon i rym am 00.01 o'r gloch ar Ebrill 27ain 2024

Llofnodwyd gan ..........................

O dan awdurdod y Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Ysgrifenyddion Cabinet Cymru

Dyddiad: Ebrill 26ain 2024

**Amodau:**

1) Mae'r gofyniad i gynnal prawf ar ôl symud ar wartheg yn berthnasol pan fydd anifeiliaid buchol yn dychwelyd i'r daliad o sioe amaethyddol nad yw wedi'i heithrio mewn Ardal TB Ganolradd neu ardal TB Uchel yng Nghymru, neu yn yr ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel yn Lloegr.
2) Mae'r gofyniad i gynnal prawf ar ôl symud ar wartheg mewn Ardal TB Ganolradd yn berthnasol pan fydd anifeiliaid buchol yn dychwelyd i'r daliad o sioe amaethyddol nad yw wedi'i heithrio mewn Ardal TB Ganolradd neu ardal TB Uchel yng Nghymru, neu yn yr ardal Risg Uchel yn Lloegr.
3) Mae'r drwydded hon yn caniatáu symud gwartheg o'r daliad i sioe amaethyddol wedi'i heithrio esempt neu un nad yw wedi'i heithrio ac wedyn yn syth yn ôl i'r daliad neu eu symud yn syth i'w lladd.
4) Rhaid i'r anifail gael ei symud o Uned Gwarantin Ardystiedig a rhaid i'r anifail fynd yn ôl i Uned Gwarantin Ardystiedig.
5) Ar ôl dychwelyd i'r daliad, rhaid i'r gwartheg gael eu cadw mewn Uned

Gwarantîn ardystiedig tan i brawf ar ôl symud gael ei gynnal 60-120 diwrnod ar ôl y symudiad cyntaf yn ôl o sioe amaethyddol heb ei heithrio a than i brawf ar ôl symud arall gael ei gynnal 60-120 ar ôl y symudiad olaf yn ôl o sioe amaethyddol nad yw wedi'i heithrio mewn Ardal TB Canolradd neu Ardal TB Uchel yng Nghymru, neu yn yr Ardaloedd Ymylol neu'r Ardal Risg Uchel yn Lloegr.

6) Ar ôl dychwelyd i'r daliad mewn Ardal TB Canolradd, rhaid i'r gwartheg gael eu cadw mewn Uned Gwarantîn ardystiedig tan i brawf ar ôl symud gael ei gynnal 60-120 diwrnod ar ôl y symudiad cyntaf yn ôl o sioe amaethyddol nad yw wedi'i heithrio a than i brawf ar ôl symud arall gael ei gynnal 60-120 ar ôl y symudiad olaf yn ôl o sioe amaethyddol nad yw wedi'i heithrio mewn Ardal TB Uchel yng Nghymru, neu yn yr Ardaloedd Ymylol neu'r Ardal Risg Uchel yn Lloegr.
7) Rhaid symud gwartheg allan o'r Uned Gwarantîn yn syth ar ôl iddynt fodloni'r gofynion o ran cynnal prawf ar ôl symud.
8) Rhaid i'r ceidwad roi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, o fewn saith diwrnod gwaith ar ôl symud gwartheg am y tro cyntaf i Uned Gwarantîn ardystiedig at y diben hwn, a dyddiad eu symudiad olaf i'r Uned Gwarantîn honno, a rhaid bod y dyddiadau hyn yn yr un flwyddyn galendr.
9) Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid eraill yn yr Uned Gwarantîn ardystiedig heblaw gwartheg eraill y mae'r drwydded hon yn ymdrin â nhw.
10) Ni chaniateir symud gwartheg i'r eiddo nac oddi yno os bydd symudiad o'r fath yn groes i gyfyngiadau sydd mewn grym oherwydd clefyd hysbysadwy arall adeg y symud arfaethedig.
11) Mae mynd yn groes i amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.
12) Gall arolygydd ddirymu'r drwydded hon, yn ysgrifenedig, am gyfnod penodol, ar gyfer unrhyw ddaliad penodol, ar unrhyw adeg.

**Nodiadau**

i) Trwydded yw hon ar gyfer gwartheg dangos sy'n mynd i un neu ragor o sioeau amaethyddol nad ydynt wedi'i heithrio yng Nghymru, neu yn Lloegr yn ystod tymor sioeau. Gellir defnyddio'r drwydded hon hefyd ar gyfer gwartheg dangos sy'n mynd i sioeau wedi'i heithrio o'r Uned Gwarantin Ardystiedig

ii) Mae gwartheg yn y cyd-destun hwn yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflos a beison.

iii) Diffinnir sioe amaethyddol wedi'i heithrio fel sioe lle na chaiff unrhyw

wartheg aros ar faes y sioe am gyfnod o fwy na 24 awr neu eu cadw ar faes y sioe. Mae 'cadw' yn y cyd-destun hwn yn golygu mewn ardal dan do gydag ochrau neu hebddynt, gan gynnwys pebyll.

iv) Uned Gwarantin Ardystiedig yw Uned Gwarantin sydd wedi'i hardystio gan Gorff Ardystio Cynllun Unedau Cwarantin Llywodraeth Cymru. Mae'r manylion i'w gweld yma:

http://www.qwfc.co.uk/index.php/en/quarantine-unit-scheme.

v) v) O dan Erthygl 13A y Gorchymyn.—

(1) Mae tair ardal dwbercwlosis yng Nghymru, sef-
(a) yr Ardal TB Isel;
(b) yr Ardal TB Ganolradd;
(c) yr Ardal TB Uchel.

(2) Pan symudir gwartheg i'r Ardal TB Isel o fuches yn—
(a) yr Ardal TB Ganolradd;
(b) yr Ardal TB Uchel;
(c) yr Ardal Ymylol neu'r Ardal Risg Uchel yn Lloegr; neu
(ch) Gogledd Iwerddon,

rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy yn cynnal prawf ar ôl symud arno dim llai na 60 niwrnod ond dim mwy na 120 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y daliad sy'n ei dderbyn.

(2A) Pan symudir anifail buchol i Ardal TB Ganolradd o fuches yn—

(a) yr Ardal TB Uchel,
(b) yr Ardal Risg Uchel yn Lloegr, neu
(c) Gogledd Iwerddon,

rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy yn cynnal prawf ar ôl symud arno dim llai na 60 niwrnod ond dim mwy na 120 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y daliad sy'n ei dderbyn.

(3) Nid yw paragraff (2) yn berthnasol i—
(a) gwartheg sy'n cael eu lladd o fewn 120 niwrnod ar ôl cyrraedd y daliad sy'n eu derbyn;
(b) gwartheg sy'n cael eu symud i gael triniaeth filfeddygol – cyn belled â'u bod yn dod yn ôl yn syth i'r safle y daethant ohono ar ôl y driniaeth, neu eu bod yn cael eu lladd neu'n cael eu hanfon yn syth i'r lladd-dy;
(c) unrhyw symudiadau a nodwyd yn Atodlen 3; ac

(ch) unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

(4) pan fydd angen cynnal prawf croen ar ôl symud ar wartheg o dan baragraff (2), ni chaiff unrhyw un symud yr anifail hwnnw o'r eiddo y cafodd ei symud iddo tan y bydd y prawf croen wedi'i gwblhau gyda chanlyniad negyddol oni bai ei fod yn cael ei symud-

(a) yn syth (neu drwy fan casglu) i'w ladd;

(b) i uned besgi gymeradwy; neu

(c) o dan awdurdod trwydded symud a roddwyd gan arolygydd.

vi) Mae'r "Ardal TB Isel" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel yr ardal TB Isel ar y map a adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru.

vii) Mae'r "Ardal TB Ganolradd" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel Ardal TB Ganolradd ar y map a adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru.

viii) Gellir dod o hyd i fap o ardaloedd risg Prydain Fawr yn: Map Achosion TB Buchol - Ardaloedd Risg, Prydain Fawr | Hwb TB

ix) Manylion cyswllt yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion:

**Cyfeiriad:** Gwasanaethau Maes Cymru, Tŷ Merlin, Heol Glasdwr, Parc Pensarn, Caerfyrddin SA31 2NF

**Ffôn:** 0300 303 8268.